

**Fideos Ymgyfarwyddo**

Gwneud yr anghyfarwydd
yn fwy cyfarwydd


**Familiarisation Videos Ltd**
admin@familiarisationvideos.co.uk
+44 (0)7494703927 | 01978 661212
**www.familiarisationvideos.co.uk**


Watch our Videos


CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND



©2023 Familiarisation Videos Ltd. All rights reserved.

# BETH YW FIDEO YMGYFARWYDDO?

**Mae fideo ymgyfarwyddo yn daith rithwir fanwl o amgylch lleoliad neu fan cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, y cyfleusterau a'r mynediad yn gyffredinol.**

Y syniad yw helpu pobl i baratoi ac ymgyfarwyddo â rhywle cyn ymweld â lle newydd neu anghyfarwydd.

Gall gwahanol amgylcheddau ysgogi meddyliau ac ymddygiadau diangen i wahanol bobl. Felly, gall y cyfle i edrych ar yr amgylcheddau hyn cyn ymweld â nhw helpu pobl i ddod yn gyfarwy dd â'r amgylchedd, gan asesu pa rwystrau y mae angen eu goresgyn, lleihau pryder, embaras, siom a chyfyngu ar straen.



## PWY FYDD YN ELWA?

Pobl ag anableddau amrywiol gan gynnwys anableddau neu salwch cudd, iechyd meddwl neu gyflyrau niwrolegol, ac unrhyw un arall sy'n byw gyda chyflwr sy'n ei gwneud hi'n anodd ymweld â lleoedd newydd, yn ogystal â gofalwyr, teuluoedd, a ffrindiau.

**Adroddir bod 14.1 miliwn o bobl anabl yn y DU, sy'n cyfateb i rym gwario o £274 biliwn y flwyddyn (Y Bunt Porffor).**

Trwy ei gwneud yn haws i nifer eang o bobl ymweld â lleoliad, gall busnesau hefyd elwa o fwy o wariant ac incwm.

## PA FATHAU O WYBODAETH Y DYLID EU CYNNWYS MEWN FIDEO YMGYFARWYDDO?

**Dylai pob fideo gynnwys;**

- Toiledau
- Pellter at fynedfeydd ac allanfeydd
- Mathau o fynediad
- Cyfleusterau parcio a mannau gollwng
- Tir
- Seddi
- Cyfleusterau
- Cyfleusterau i'r anabl
- Nodweddion
- Cynllun cyffredinol
- Allanfeydd tân

**Cymaint o wahanol fewnbynnau synhwyraidd â phosibl**



## SUT ALLWN NI GYFLAWNI HYN?

Gall busnesau, sefydliadau, lleoliadau, neu bartïon sy'n gyfrifol am fannau cyhoeddus greu fideos ymgyfarwyddo. I helpu gyda hyn, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o becynnau sy'n addas i bob cyllideb, O restr wirio fanwl, creu fideo mewnol, neu ein gwasanaeth llawn sy'n cynnwys creu fideo taith gan fideograffwyr proffesiynol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol.

**Bydd y fideo ar gael ar wefan y lleoliad a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Bydd gan wefan ac ap Fideos Ymgyfarwyddo gronfa ddata chwiliadwy o'r holl leoliadau sy'n cymryd rhan, a hefyd bydd gwybodaeth ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.**

## RHAGOR O WYBODAETH YMA

admin@familiarisationvideos.co.uk | +44 (0)7494703927 | 01978 661212

**www.familiarisationvideos.co.uk**